# Adroddiad Arolwg Cyflogaeth, 2022
## Medi 2025

**Cyngor Sir Penfro**

**ac**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Cynnwys


| Tudalen | Teitl | Pennod |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Methodoleg | 4 |
| 3 | Trosolwg o newidiadau 2013-2022 a chrynodeb o ganlyniadau 2022 | 6 |
| 4 | Canlyniadau yn seiliedig ar ardal | 12 |
| 5 | Ardal Penfro a Doc Penfro | 15 |
| 6 | Ardal Aberdaugleddau a Waterston | 19 |
| 7 | Ardal Hwlffordd a Phontfadlen | 23 |
| 8 | Ardal Abergwaun ac Wdig, gan gynnwys Scleddau a Threcŵn | 27 |
| 9 | Ardal Neyland | 30 |
| 10 | Ardal Arberth | 34 |
| 11 | Lleoliadau eraill yn ardal gynllunio’r cyngor | 38 |
| 12 | Safleoedd y parc cenedlaethol | 42 |
| 13 | Safleoedd bach – safleoedd cyflogaeth ar hap o lai na 5000 $m^2$ (0.5 hectar) | 46 |
| 14 | Taenlen o ganlyniadau (Atodiad A) | 46 |
| 15 | Mapiau safle (Atodiad B) | 46 |

# 1 Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Cyngor Sir Penfro arolygon cyflogaeth ar gyfer tir o fewn ei awdurdodaeth gynllunio bob yn ail flwyddyn o 2003 i 2013. Ers 2013, bu arolygon pellach, yn 2015, 2016, 2017, 2019 ac yn fwyaf diweddar yn 2022. Ers 2017, mae'r arolygon hefyd wedi cynnwys safleoedd cyflogaeth allweddol o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

1.2 Mae methodoleg yr arolwg wedi'i hadolygu i gydymffurfio â chyngor cynllunio diweddaraf Llywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'n adlewyrchu gofynion:

- Y rhifyn cyfredol o Bolisi Cynllunio Cymru
- Cyngor Technegol Cymru 23 ar Ddatblygu Economaidd
- Practice Guidance on Building an Economic Development Evidence Base to Support a Local Development Plan (Canllawiau ymarfer ar adeiladu sylfaen dystiolaeth datblygu economaidd i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol).

1.3 Y llinell sylfaen ar gyfer y fethodoleg arolwg newydd yw 2013. Fodd bynnag, mae'r fethodoleg wedi'i diweddaru ymhellach ers hynny ac mae safleoedd parciau cenedlaethol wedi'u cynnwys o 2017. Mae 2013 yn cyd-daro â dyddiad mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) y cyngor tra mai 2017 oedd y dyddiad y dechreuodd adolygiad y CDLl yng Nghyngor Sir Penfro. Ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mabwysiadwyd ei CDLl cyntaf yn 2010 a chafodd ei CDLl newydd (CDLl 2) ei fabwysiadu yn 2020. Ar gyfer pob blwyddyn arolwg, y sefyllfa a nodir yw'r un ar 1 Ebrill y flwyddyn honno. Amlinellir methodoleg yr arolwg isod.

1.4 At ddibenion yr adroddiad hwn, cymerir bod defnyddiau tir cyflogaeth yn cynnwys y rhai yn Nosbarthiadau Defnydd B1, B2, B8, A2 (swyddfeydd) a defnyddiau Sui Generis sy'n perthyn yn agos i ddefnyddiau Dosbarth B.

1.5 Hefyd, at ddibenion darparu data cymharol ar gyfer Adroddiad Arolwg Cyflogaeth 2022, mae canlyniadau'r arolygon cynharach yn 2013, 2017 a 2019 wedi'u cynnwys, ochr yn ochr â rhai 2022.

## 2 Methodoleg

2.1 Mae arolwg cyflogaeth 2022 yn cwmpasu:

- Pob dyraniad cyflogaeth a defnydd cymysg CDLl cyngor sir (polisïau SP 3, GN 5 a GN 7). Mae cynnig marina (polisi GN 21) gydag elfen gyflogaeth hefyd wedi'i gynnwys.
- Pob safle cyflogaeth presennol a restrir yng nghanllawiau cynllunio atodol safleoedd datblygu'r cyngor. Nid yw hyn yn cwmpasu pob safle cyflogaeth presennol, ond mae'n cynnwys y prif rai. Caiff y rhestr o safleoedd ei hadolygu'n rheolaidd.
- Safleoedd cyflogaeth ar hap sy'n fwy na 0.5 hectar yn ardal gynllunio'r cyngor, lle caniatawyd hynny ers mabwysiadu CDLl y cyngor a lle nad ydynt eisoes ar restr safleoedd datblygu presennol sy'n destun canllawiau cynllunio atodol.
- Y prif safleoedd cyflogaeth o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a enwebwyd i'w cynnwys gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

2.2 Cyfeirir at safleoedd bach yn ardal gynllunio'r cyngor (safleoedd cyflogaeth ar hap o lai na 0.5 hectar a ganiatawyd ers mabwysiadu CDLl y cyngor), ond nid yw'r rhain yn cael eu harolygu.

2.3 Arolygwyd cyfanswm o 85 o safleoedd yn 2022, ac roedd 77 ohonynt yn ardal gynllunio'r cyngor ac wyth yn y parc cenedlaethol. Yr wybodaeth a gesglir ar gyfer pob un o'r rhain yw:

- Ardal y safle
- Yr adeiladau a'r tir o fewn ardal pob safle a oedd yn cael eu defnyddio
- Y tir a'r adeiladau gwag nad ydynt yn cael eu defnyddio o fewn pob safle a arolygwyd
- Adeiladau a thir agored sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth
- Adeiladau ac unedau caeedig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion eraill o fewn safle cyflogaeth
  *(mae hyn yn cwmpasu ardaloedd tir nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion sydd o fewn dosbarthiadau defnydd B1, B2, B8 ac A2 – neu ar gyfer defnyddiau Sui Generis sy'n gysylltiedig yn agos â defnyddiau cyflogaeth dosbarth B)*

- Tir a ddefnyddir ar gyfer seilwaith a thirlunio neu sy'n debygol o fod yn anodd ei ddatblygu
  *(mae hyn yn cynnwys seilwaith a rennir fel ffyrdd a lleoedd parcio ceir, ardaloedd wedi'u tirlunio a thir sy'n annhebygol o fod yn addas ar gyfer datblygiad, efallai oherwydd topograffeg serth neu fynediad gwael)*
- Dadansoddiad yn seiliedig ar ardal ar gyfer tir ac adeiladau sy'n cael eu defnyddio, i'r cydrannau defnyddiau tir, y categorïau yw dosbarthiadau defnydd B1, B2, B8, A2 ac 'Arall' ac
- Ar gyfer safleoedd yn ardal gynllunio'r cyngor, rhifau cyfeirnod ceisiadau cynllunio ar gyfer caniatâd cynllunio cyflogaeth a chaniatâd cynllunio di-gyflogaeth.

  Dangosir gwybodaeth hanesyddol o 2013, 2017 a 2019 at ddibenion cymharu, ond nid yw gwybodaeth ar gyfer arolygon cyn 2013 a hefyd ar gyfer 2015 a 2016 wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn.

2.4 Cofnodir mesuriadau arwynebedd mewn metrau sgwâr. Gellir trosi'r rhain yn hectarau trwy rannu â 10,000.

2.5 Mae taenlen ganlyniadau, sy'n cofnodi canlyniadau llawn arolwg 2022, wedi'i pharatoi (gweler pennod 13).

# 3 Trosolwg o newidiadau 2013-2022 a chrynodeb o ganlyniadau 2022 (lle nad oes data cymharol ar gael)

## Safle sylfaenol

3.1 Cyfanswm arwynebedd y darn o dir a nodwyd at ddibenion cyflogaeth (wedi'i ganiatáu, ei ddyrannu neu ei adeiladu) yn 2013 (y sefyllfa sylfaenol) oedd 11,373,700 $m^2$ (1137.37 hectar). Fodd bynnag, dim ond ar gyfer ardal awdurdodaeth gynllunio'r cyngor y mae'r ffigur hwn ac nid yw'n cynnwys safleoedd y parc cenedlaethol.

Erbyn 2017, roedd y ffigur hwn wedi codi i 11,999,136 $m^2$ (1199.91 hectar) yn ardal gynllunio Cyngor Sir Penfro, gyda chyfraniad y parc cenedlaethol yn 848,231 $m^2$ (84.82 hectar).

Y ffigurau cyfatebol ar gyfer 2019 oedd 12,062,522 $m^2$ (1206.25 hectar) yn ardal gynllunio'r cyngor ac 848,232 $m^2$ (84.82 hectar) yn y parc cenedlaethol.

Yng nghanlyniadau arolwg 2022 mae ffigur ardal gynllunio'r cyngor yn cynyddu ymhellach i 12,361,884 $m^2$ (1236.19 hectar) a'r cyfanswm cyfatebol ar gyfer y parc cenedlaethol yn codi i 856,288 $m^2$ (85.62 hectar).

Ar gyfer arolwg 2022, gwnaed ymdrechion i wella digideiddio safleoedd ac i leihau anomaleddau yn nhabl y canlyniadau. Fodd bynnag, y prif gyfranwyr at y cynnydd yn y ddarpariaeth dros y blynyddoedd olynol fu ehangu ar safleoedd sydd eisoes wedi'u cynnwys yn yr arolwg, ar dir newydd neu dir a oedd yn wag o'r blaen, a chynnwys rhai safleoedd newydd bob tro y cynhelir yr arolwg, yn bennaf mewn ymateb i roi caniatadau newydd ar safleoedd ar hap.

## Arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio

3.2 Yr arwynebedd safle a oedd yn cael ei ddefnyddio yn 2013 oedd 9,448,700 $m^2$ (944.87 hectar), ac nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys safleoedd y parc cenedlaethol.

Yn 2017, roedd y ffigur wedi cynyddu i 9,837,489m$^2$ (983.75 hectar) ar gyfer safleoedd yn ardal gynllunio'r cyngor ac fe'i cofnodwyd fel 811,405 m$^2$ (81.14 hectar) yn y parc cenedlaethol.

Ar gyfer 2019, roedd y ffigurau wedi cynyddu ymhellach i 9,944,211 m$^2$ (994.42 hectar) yn ardal gynllunio'r cyngor ac 812,089 (81.21 hectar) yn y parc cenedlaethol.

Mae canlyniadau arolwg 2022 yn dangos cynnydd pellach, i 10,373.519 m$^2$ (1037.35 hectar) yn ardal gynllunio'r cyngor ac 825.632 m$^2$ (82.56 hectar) yn y parc cenedlaethol.

## Tir ac adeiladau gwag

3.3 Roedd y ffigur tir gwag yn cynnwys adeiladau gwag yn 2013 ac fe'i cofnodwyd fel 1,925,000 m$^2$ (192.50 hectar), ac nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys safleoedd y parc cenedlaethol. O 2017 ymlaen, mae ffigurau Cyngor Sir Penfro a'r parc cenedlaethol ar gael a chofnodir ffigurau ar gyfer adeiladau gwag ar wahân i'r rhai ar gyfer tir gwag.

Yn 2017, roedd y tir gwag (heb gynnwys adeiladau y tro hwn) ar gyfer safleoedd yn ardal y cyngor yn 1,995,261 m$^2$ (199.53 hectar), a'r ffigur cyfatebol ar gyfer y parc cenedlaethol oedd 36,100 m$^2$ (3.61 hectar). Roedd adeiladau nad oeddent yn cael eu defnyddio yn 2017 yn meddiannu 166,386 m$^2$ (16.64 hectar) yn ardal gynllunio'r cyngor a 726 m$^2$ (0.07 hectar) yn y parc cenedlaethol.

Yn 2019, gostyngodd y ffigur arwynebedd gwag i 1,931,942 m$^2$ (193.19 hectar) yn ardal y cyngor ac i 35,403 m$^2$ (3.54 hectar) yn y parc cenedlaethol. Roedd ffigurau'r adeiladau nad oeddent yn cael eu defnyddio ar gyfer 2019 yn 186,369 m$^2$ (18.64 hectar) ar gyfer ardal gynllunio'r cyngor a 740 m$^2$ (0.07 hectar) yn y parc cenedlaethol.

Mae canlyniadau arolwg 2022 yn dangos gostyngiad pellach yn ffigur yr arwynebedd gwag, i 1,826,431 m$^2$ (182.64 hectar) yn ardal y cyngor ac i 30,492 m$^2$ yn y parc cenedlaethol. Roedd ffigurau'r adeiladau nad oeddent yn cael eu defnyddio ar gyfer 2022 yn 161,934 m$^2$ (16.19 hectar) yn ardal gynllunio'r cyngor a 163 m$^2$ (0.02 hectar) yn y parc cenedlaethol.

3.4 Yn 2022, roedd dosbarthiad daearyddol y tir gwag ac eithrio adeiladau ac adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio (ar y cyd ac ar gyfer safleoedd y cyngor a'r parc cenedlaethol gyda'i gilydd) fel a ganlyn:

- Penfro a Doc Penfro – 15.61% yn 2022 (15.84% yn 2019)
- Aberdaugleddau a Waterston – 27.88% yn 2022 (26.24% yn 2019)
- Hwlffordd a Phontfadlen – 21.65% yn 2022 (21.59% yn 2019)
- Abergwaun, Wdig, Scleddau a Threcŵn – 16.63% yn 2022 (17.26% yn 2019)
- Neyland – 5.28% yn 2022 (5.47% yn 2019)
- Arberth – 0.45% yn 2022 (0.50% yn 2019)
- Lleoliadau eraill o fewn ardal gynllunio'r cyngor – 10.98% yn 2022 (11.30% yn 2019) a
- Safleoedd y parc cenedlaethol – 1.52% yn 2022 (1.80% yn 2019).

Mae rhywfaint o amrywiad rhwng 2019 a 2022, ond nid yw'r ddwy set o ffigurau'n wahanol iawn.

3.5 Cofnodwyd bod arwynebedd y tir a gwmpesir gan adeiladau / unedau caeedig a oedd yn cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth yn ardal gynllunio'r cyngor yn 2017 yn 6,987,520 $m^2$ (698.75 hectar), gyda 784,956 $m^2$ (78.50 hectar) pellach wedi'i gofnodi yn ardal y parc cenedlaethol. Cofnodwyd bod adeiladau / unedau caeedig a oedd yn cael eu defnyddio ar y safleoedd a arolygwyd at ddibenion eraill yn 2017 yn 2,253,095 $m^2$ yn ardal gynllunio'r cyngor a 2,915 $m^2$ yn y parc cenedlaethol.

Yn 2019, cynyddodd arwynebedd y tir a gwmpesir gan adeiladau / unedau caeedig a oedd yn cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth ychydig yn ardal gynllunio'r cyngor i 7,024,103 $m^2$ (702.4 hectar) a 785,795 $m^2$ yn ardal y parc cenedlaethol. Hefyd yn 2019, roedd adeiladau / unedau caeedig a oedd yn cael eu defnyddio at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth yn gorchuddio 2,278,658 $m^2$ yn ardal gynllunio'r cyngor, ynghyd â 2,284 $m^2$ yn y parc cenedlaethol.

Yn 2022, cynyddodd yr arwynebedd tir a gwmpesir gan adeiladau / unedau caeedig a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth ymhellach yn ardal gynllunio'r cyngor i 7,163,938.43 $m^2$ ac i 793,414.30 $m^2$ yn y parc cenedlaethol. Hefyd yn 2022, roedd adeiladau

/ unedau caeedig a oedd yn cael eu defnyddio at ddibenion nad oeddent yn ymwneud â chyflogaeth yn gorchuddio 2,483,106.33 $m^2$ yn ardal gynllunio'r cyngor, ynghyd â 3,659.96 $m^2$ yn y parc cenedlaethol.

Mae tuedd gymedrol ond gynyddol tuag at ddefnyddio tir ac adeiladau ar safleoedd cyflogaeth ledled Sir Benfro ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogaeth.

## Tir a ddefnyddir ar gyfer seilwaith, tirlunio neu a ystyrir fel arall yn anodd ei ddatblygu

3.6 Mae tir a ddefnyddir ar gyfer seilwaith, tirlunio neu a ystyrir fel arall yn anodd ei ddatblygu yn cael ei gofnodi ar wahân i'r tir gwag ac eithrio adeiladau a'r adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Yn 2017, cofnodwyd bod ffigur arwynebedd y tir yn y categori hwn ar gyfer ardal gynllunio'r cyngor yn 594,885 $m^2$ (59.49 hectar) ac yn y parc cenedlaethol yn 23,281 $m^2$ (2.33 hectar). Yn 2019, cynyddodd y ffigurau hyn i 641,450 $m^2$ (64.15 hectar) ar gyfer ardal gynllunio'r cyngor a 24,009 $m^2$ (2.40 hectar) ar gyfer y parc cenedlaethol. Ar gyfer 2022, y ffigurau cyfatebol oedd 726,473.88 $m^2$ (72.65 hectar) ar gyfer ardal gynllunio'r cyngor a 28,557.94 $m^2$ (2.86 hectar).

Unwaith eto, y duedd yw twf graddol yn y categori hwn, o bosibl yn rhannol oherwydd darparu mwy o seilwaith cefnogol ar safleoedd ac oherwydd defnydd mwy helaeth o dirlunio at ddibenion sgrinio.

3.7 Ar gyfer tir a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflogaeth a dibenion eraill ar y safleoedd a arolygwyd, roedd yr arwynebedd tir a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y gwahanol gategorïau a gofnodwyd fel a ganlyn yn 2017:

Ardal gynllunio'r cyngor:

- Dosbarth B1 – 54,274 $m^2$ (5.43 hectar)
- Dosbarth B2 – 2,590,801 $m^2$ (259.08 hectar)
- Dosbarth B8 – 4,340,918 $m^2$ (434.09 hectar)
- Dosbarth A2 – 1,527 $m^2$ (0.15 hectar) a

- Arall – 2,253,095 $m^2$ (225.31 hectar)

Parc Cenedlaethol:

- Dosbarth B1 – 616 $m^2$ (0.06 hectar)
- Dosbarth B2 – 780,508 $m^2$ (78.05 hectar)
- Dosbarth B8 – 3,832 $m^2$ (0.38 hectar)
- Dosbarth A2 – 0 $m^2$ (0 hectar) a
- Arall – 2,915 $m^2$ (0.29 hectar)

Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer 2019 fel a ganlyn:

Ardal gynllunio'r cyngor:

- Dosbarth B1 – 53,166 $m^2$ (5.32 hectar)
- Dosbarth B2 – 2,633,678 $m^2$ (263.37 hectar)
- Dosbarth B8 – 4,336,066 $m^2$ (433.61 hectar)
- Dosbarth A2 – 1,193 $m^2$ (0.12 hectar) a
- Arall – 2,278,658 $m^2$ (227.87 hectar)

Parc Cenedlaethol:

- Dosbarth B1 – 664 $m^2$ (0.07 hectar)
- Dosbarth B2 – 777,829 $m^2$ (77.78 hectar)
- Dosbarth B8 – 7,302 $m^2$ (0.73 hectar)
- Dosbarth A2 – 0 $m^2$ (0 hectar) a
- Arall – 2,284 $m^2$ (0.23 hectar)

Ar gyfer 2022, mae’r ffigurau fel a ganlyn:

Ardal gynllunio’r cyngor:

- Dosbarth B1 – 53,944.12 $m^2$ (5.39 hectar)
- Dosbarth B2 – 4,981,151.98 $m^2$ (498.12 hectar)
- Dosbarth B8 – 2,127,813.69 $m^2$ (212.78 hectar)
- Dosbarth A2 – 1,028.64 $m^2$ (0.10 hectar) a
- Arall – 2,483,106 $m^2$ (248.31 hectar)

Parc Cenedlaethol:

- Dosbarth B1 – 1100.34 $m^2$ (0.11 hectar)
- Dosbarth B2 – 778,620.11 $m^2$ (77.86 hectar)
- Dosbarth B8 – 13693.85 $m^2$ (1.37 hectar)
- Dosbarth A2 – 0 $m^2$ (0 hectar) a
- Arall – 3,659.96 $m^2$ (0.37 hectar)

Mae’r ffigurau’n cyflwyno darlun cymharol gyson o 2017 hyd at 2022, ond mae un eithriad pwysig i hyn, sy’n ymwneud â rhaniad ffigurau B2 a B8 ar gyfer safleoedd ardal gynllunio’r cyngor rhwng 2019 a 2022. Mae’r ffigur ar gyfer y dosbarth defnydd B2 yn cynyddu’n sylweddol yn 2022, tra bod y ffigur ar gyfer defnyddiau B8 yn llawer is. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd ailasesu’r dosbarthiadau dosbarth defnydd priodol ar gyfer rhai o’r prif safleoedd diwydiannol ar hyd Dyfrffordd y Ddaugleddau rhwng arolygon 2019 a 2022.

Efallai y bydd newidiadau pellach i’r cydbwysedd hwnnw yn y blynyddoedd i ddod wrth i gynigion Porthladd Rhydd Celtaidd ddod ymlaen, yn seiliedig ar drawsnewid o weithgareddau diwydiannol carbon-ddwys i rai sy’n seiliedig ar hydrogen, i gynigion storio ynni ac i weithgareddau sy’n gysylltiedig â datblygu cynigion ynni gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd. Fodd bynnag, bydd hynny’n rhywbeth y bydd arolygon yn y dyfodol yn adrodd arno.

# 4 Canlyniadau yn seiliedig ar ardal

4.1 Lleoliadau yn ardaloedd Doc Penfro / Penfro ac Aberdaugleddau / Waterston sy'n gwneud y cyfraniadau mwyaf at y cyfansymiau arwynebedd safle, gan ddarparu mwy na 75% o'r tir cyflogaeth a arolygwyd. Mae'r prif safleoedd diwydiannol ar hyd Dyfrffordd y Ddaugleddau o bwys cenedlaethol o leiaf ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n glir yng nghanlyniadau'r arolwg.

4.2 Mae'r tabl isod yn cyflwyno crynodeb o ganlyniadau cyfanswm arwynebedd safle yn ôl lleoliad daearyddol ar gyfer 2017, 2019 a 2022:

| ***Lleoliad*** | ***2017 cyfans. $m^2$*** | ***2017 %*** | ***2019 cyfans. $m^2$*** | ***2019 %*** | ***2022 cyfans. $m^2$*** | ***2022 %*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Ardal Penfro a Doc Penfro | 5,081,631 | 39.55% | 5,109,816 | 39.58% | 5,320,657.90 | 40.25% |
| 2. Ardal Aberdaugleddau a Waterston | 4,828,341 | 37.58% | 4,828,607 | 37.40% | 4,842,261.87 | 36.63% |
| 3. Ardal Hwlffordd a Phontfadlen | 751,913 | 5.85% | 763,712 | 5.92% | 817,892.29 | 6.19% |

| ***Lleoliad*** | ***2017 cyfanswm m²*** | ***2017 %*** | ***2019 cyfanswm m²*** | ***2019 %*** | ***2022 cyfanswm m²*** | ***2022 %*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. Ardal Abergwaun ac Wdig, gan gynnwys Scleddau a Trecŵn | 435,407 | 3.39% | 435,374 | 3.37% | 433,896.48 | 3.28% |
| 5. Ardal Neyland | 226,540 | 1.76% | 226,541 | 1.75% | 226,509.62 | 1.71% |
| 6. Ardal Arberth | 53,456 | 0.42% | 53,454 | 0.41% | 53,450.30 | 0.40% |
| 7. Ardaloedd eraill CSP | 621,848 | 4.84% | 645,018 | 5.00% | 667,215.36 | 5.05% |
| 8. Safleoedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol | 848,231 | 6.60% | 848,232 | 6.57% | 856,287.61 | 6.48% |
| ***Cyfanswm*** | *12,847,367* | 100% | *12,910,754* | 100 % | *13,218,171.43* | 100% |

4.3 Mae'r rhan fwyaf o'r prif weithfeydd diwydiannol ar hyd neu'n agos at Ddyfrffordd y Ddaugleddau o fewn ardal awdurdodaeth gynllunio Cyngor Sir Penfro. Fodd bynnag, mae rhan sylweddol o derfynfa South Hook LNG wedi'i lleoli o fewn y parc cenedlaethol – ac yn wir dyma'r safle diwydiannol mwyaf o bell ffordd o fewn y parc cenedlaethol. Yn ogystal â South Hook LNG, y safleoedd diwydiannol allweddol eraill ar hyd neu'n agos at y ddyfrffordd yw Purfa Valero, Gorsaf Bŵer Penfro, safle Puma Energy, Dragon LNG ac ati yn Waterston a Blackbridge (lle nad oes defnydd ar hyn o bryd, ond mae dyraniad cyflogaeth CDLl ar waith).

## 5 Ardal Penfro a Doc Penfro

### Cyfanswm arwynebedd safle

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 5,027,100 | 502.71 |
| 2017 | 5,081,631 | 508.16 |
| 2019 | 5,109,816 | 510.98 |
| 2022 | 5,320,657.90 | 532.07 |
| Newid 2019-2022 | + 210,841.90 | + 21.08 |

### Arwynebedd safle sy’n cael ei ddefnyddio

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 4,644,200 | 464.42 |
| 2017 | 4,751,407 | 475.14 |
| 2019 | 4,787,051 | 478.71 |
| 2022 | 5,005,369.75 | 500.54 |
| Newid 2019-2022 | + 218,318.75 | + 21.83 |

### Ardal wag (gan gynnwys adeiladau yn 2013 ac wedi'u rhannu wedi hynny)

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 ardal ac adeiladau gwag | 382,900 | 38.29 |
| 2017 ardal wag | 317,439 | 31.74 |
| 2017 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 2,785 | 1.28 |
| 2019 ardal wag | 311,580 | 31.16 |
| 2019 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 11,185 | 1.12 |
| 2022 ardal wag | 307,930.79 | 30.79 |
| 2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 7,357.36 | 0.74 |
| Newid 2019-2022 ardal wag | -3,649.21 | - 0.36 |
| Newid 2019-2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | - 3,827.64 | - 0.38 |

5.1 Casgliadau ardal Penfro a Doc Penfro – mae'r cyfanswm arwynebedd safle sydd ar gael at ddibenion cyflogaeth wedi cynyddu gyda phob arolwg olynol, 2013 hyd at 2022. Mae ffigurau arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio hefyd wedi cynyddu gyda phob arolwg olynol. O ran arwynebedd tir gwag ac adeiladau gwag, y duedd yw gostyngiad bach gyda phob arolwg olynol.

Ardal Penfro a Doc Penfro – tabl yn dangos cyfrannau gwahanol gategorïau tir sy'n cael/nad ydyw'n cael ei ddefnyddio, 2022

| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | $m^2$ | Hectarau | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | 5,320,657.90 | 532.07 | |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth | 2,499,836.21 | 249.98 | 46.98% |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill | 2,310,490.01 | 231.05 | 43.42% |
| Adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 7357.36 | 0.74 | 0.13% |
| Gwag, heb ei ddatblygu | 307,930.79 | 30.79 | 5.79% |
| Seilwaith, tirlunio a thir anodd ei ddatblygu | 195,043.53 | 19.50 | 3.67% |

5.2 Mae'r tabl uchod yn dangos bod ychydig o dan 47% o'r tir sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth. Roedd tua 43% yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill. Mae hyn yn bennaf yn adlewyrchu dosbarthiad Gorsaf Bŵer Penfro fel defnydd Sui Generis, yn hytrach na defnydd Dosbarth B. Mae adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cynrychioli cyfran ansylweddol o'r cyfanswm. Roedd tir gwag, heb ei ddatblygu yn cyfrif am ychydig o dan 6% o'r cyfanswm. Roedd seilwaith, tirlunio a thir 'anodd ei ddatblygu' yn cyfrif am ychydig llai na 4% o'r cyfanswm.

Ardal Penfro a Doc Penfro – tabl yn dangos tir ac adeiladau a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth, yn ôl dosbarth defnydd, 2022

| Adeiladau / unedau caeedig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth, 2022 | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| Dosbarth defnydd B1 | 27,821.88 | 2.78 |
| Dosbarth defnydd B2 | 2,305,350.13 | 230.54 |
| Dosbarth defnydd B8 | 166,664.20 | 16.67 |
| Dosbarth defnydd A2 | 0 | 0 |

5.3 Mae'r tabl uchod yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r tir cyflogaeth sy'n cael ei ddefnyddio yn ardal Penfro / Doc Penfro yn cael ei ddefnyddio yn nosbarth defnydd B2 (diwydiannol cyffredinol).

5.4 O'r naw safle a arolygwyd yn 2022, roedd tri yn cynnwys tir a oedd yn cael ei hysbysebu i'w werthu.

## 6 Ardal Aberdaugleddau a Waterston

### Cyfanswm arwynebedd safle

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 4,501,000 | 450.10 |
| 2017 | 4,828,341 | 482.83 |
| 2019 | 4,828,607 | 482.86 |
| 2022 | 4,842,261.87 | 484.23 |
| Newid 2019-2022 | + 13,654.87 | + 1.37 |

### Arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 3,984,800 | 398.48 |
| 2017 | 4,177,708 | 417.77 |
| 2019 | 4,177,404 | 417.74 |
| 2022 | 4,279,354.88 | 427.94 |
| Newid 2019-2022 | + 101,950.88 | + 10.20 |

Ardal wag (gan gynnwys adeiladau yn 2013 ac wedi'u rhannu wedi hynny)

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 ardal ac adeiladau gwag | 516,200 | 51.62 |
| 2017 ardal wag | 536,577 | 53.66 |
| 2017 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 114,056 | 11.41 |
| 2019 ardal wag | 516,201 | 51.62 |
| 2019 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 135,002 | 13.50 |
| 2022 ardal wag | 435,740.97 | 43.57 |
| 2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 127,166.02 | 12.72 |
| Newid 2019-2022 ardal wag | - 80,460.03 | - 8.05 |
| Newid 2019-2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | - 7,835.98 | - 0.78 |

6.1 Casgliadau ardal Aberdaugleddau a Waterston – mae cyfanswm yr arwynebedd safle sydd ar gael at ddibenion cyflogaeth wedi cynyddu gyda phob arolwg olynol, 2013 hyd at 2022. Cynyddodd ffigurau arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio rhwng 2013 a 2017, gostyngodd y ffigyrau ychydig rhwng 2017 a 2019 ac yna cynyddasant rhyw ychydig rhwng 2019 a 2022. O ran arwynebedd tir gwag ac adeiladau gwag, nid yw'r tueddiadau mor glir â hynny. Bu cynnydd rhwng 2013 a 2017. Rhwng 2017 a 2019, mae arwynebedd y tir gwag yn gostwng ychydig, tra bod arwynebedd yr adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cynyddu ychydig. Rhwng 2019 a 2022, mae arwynebedd tir gwag ac adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio ill dau yn lleihau.

Ardal Aberdaugleddau a Waterston – tabl yn dangos cyfrannau gwahanol gategorïau tir sy’n cael/nad ydyw’n cael ei ddefnyddio, 2022

| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | $m^2$ | Hectarau | % o’r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | 4,842,261.87 | 484.23 | |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth | 4,105,993.44 | 410.60 | 84.79% |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion eraill | 50,007.01 | 5.00 | 1.03% |
| Adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 127,166.02 | 12.72 | 2.63% |
| Gwag, heb ei ddatblygu | 435,740.97 | 43.57 | 9.00% |
| Seilwaith, tirlunio a thir anodd ei ddatblygu | 123,354.43 | 12.34 | 2.55% |

6.2 Mae’r tabl uchod yn dangos bod ychydig o dan 85% o’r tir sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth. Roedd ychydig dros 1% yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill. Mae adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cynrychioli ychydig dros 2.5% o’r cyfanswm. Roedd tir gwag, heb ei ddatblygu yn cyfrif am 9% o’r cyfanswm. Roedd seilwaith, tirlunio a thir ‘anodd ei ddatblygu’ yn cyfrif am ychydig dros 2.5% o’r cyfanswm.

Ardal Aberdaugleddau a Waterston – tabl yn dangos tir ac adeiladau a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth, yn ôl dosbarth defnydd, 2022

| Adeiladau / unedau caeedig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth, 2022 | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| Dosbarth defnydd B1 | 8623.83 | 0.86 |
| Dosbarth defnydd B2 | 2525548.46 | 252.55 |
| Dosbarth defnydd B8 | 1571122.76 | 15.71 |
| Dosbarth defnydd A2 | 698.39 | 0.07 |

6.3 Mae'r tabl uchod yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r tir cyflogaeth sy'n cael ei ddefnyddio yn ardal Aberdaugleddau / Waterston yn nosbarth B2 (diwydiannol cyffredinol).

6.4 O'r 12 safle a arolygwyd yn 2022, roedd tri yn cynnwys tir a oedd yn cael ei hysbysebu i'w werthu.

## 7 Ardal Hwlffordd a Phontfadlen

### Cyfanswm arwynebedd safle

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 685,300 | 68.53 |
| 2017 | 751,913 | 75.19 |
| 2019 | 763,712 | 76.37 |
| 2022 | 817,892.29 | 81.79 |
| Newid 2019-2022 | + 54,180.29 | + 5.42 |

### Arwynebedd safle sy’n cael ei ddefnyddio

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 260,700 | 26.07 |
| 2017 | 314,099 | 31.41 |
| 2019 | 334,824 | 33.48 |
| 2022 | 380,719.10 | 38.07 |
| Newid 2019-2022 | + 45,895.10 | + 4.59 |

Ardal wag (gan gynnwys adeiladau yn 2013 ac wedi'u rhannu wedi hynny)

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 ardal ac adeiladau gwag | 424,600 | 42.46 |
| 2017 ardal wag | 434,774 | 43.48 |
| 2017 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 3,040 | 0.30 |
| 2019 ardal wag | 424,671 | 42.47 |
| 2019 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 4,217 | 0.42 |
| 2022 ardal wag | 434,793.79 | 43.48 |
| 2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 2,379.40 | 0.24 |
| Newid 2019-2022 ardal wag | +10,122.79 | +1.01 |
| Newid 2019-2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | - 1837.60 | - 0.18 |

7.1 Casgliadau ardal Hwlffordd a Phontfadlen – mae cyfanswm yr arwynebedd safle sydd ar gael at ddibenion cyflogaeth wedi cynyddu gyda phob arolwg olynol, 2013 hyd at 2022. Mae ffigurau arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio hefyd wedi cynyddu'n gyson gyda phob arolwg olynol. O ran arwynebedd tir gwag ac adeiladau gwag, nid yw'r tueddiadau'n hollol glir. Ar gyfer tir gwag, bu cynnydd rhwng 2013 a 2017, gostyngiad rhwng 2017 a 2019 ac yna cynnydd yn ôl i tua lefelau 2017 yn 2022. Ar gyfer adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio, mae'r ffigurau'n eithaf isel yn gyffredinol, gyda chynnydd bach rhwng 2017 a 2019 ac yna gostyngiad rhwng 2019 a 2022.

Ardal Hwlffordd a Phontfadlen – tabl yn dangos cyfrannau gwahanol gategorïau tir sy'n cael/nad ydyw'n cael ei ddefnyddio, 2022

| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | $m^2$ | Hectarau | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | 817,892.29 | 81.79 | |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth | 192,889.10 | 19.29 | 23.58% |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion eraill | 41,627.36 | 4.16 | 5.09% |
| Adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 2,379.40 | 0.24 | 0.29% |
| Gwag, heb ei ddatblygu | 434,793.79 | 43.48 | 53.16% |
| Seilwaith, tirlunio a thir anodd ei ddatblygu | 146,202.64 | 14.62 | 17.88% |

7.2 Mae'r tabl uchod yn dangos bod ychydig mwy na 23.5% o'r tir sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth. Roedd ychydig dros 5% yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill. Roedd adeiladau nad oeddent yn cael eu defnyddio yn cynrychioli cyfran ansylweddol o'r cyfanswm, tra bod ychydig dros 53% o'r tir oedd ar gael yn wag ac heb ei ddatblygu. Fodd bynnag, mae'n werth nodi yn yr achos hwn, bod yr arwynebeddau tir cyffredinol dan sylw yn llawer llai nag, er enghraifft, ym Mhenfro a Doc Penfro ac yn Aberdaugleddau ac Waterston. Roedd seilwaith, tirlunio a thir 'anodd ei ddatblygu' yn cyfrif am ychydig o dan 18% o'r cyfanswm, gan adlewyrchu'n rhannol faint o seilwaith sydd wedi'i osod ar y safle, er enghraifft o ran y rhwydwaith ffyrdd.

Ardal Hwlffordd a Phontfadlen – tabl yn dangos tir ac adeiladau a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth, yn ôl dosbarth defnydd, 2022

| Adeiladau / unedau caeedig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth, 2022 | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| Dosbarth defnydd B1 | 7,122.45 | 0.71 |
| Dosbarth defnydd B2 | 56503.24 | 5.65 |
| Dosbarth defnydd B8 | 129,206.58 | 12.92 |
| Dosbarth defnydd A2 | 56.83 | 0.01 |

7.3 Mae'r tabl uchod yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r tir cyflogaeth sy'n cael ei ddefnyddio yn ardal Hwlffordd a Phontfadlen yn nosbarthiadau B2 (diwydiannol cyffredinol) a B8 (dosbarthu a storio).

7.4 O'r 14 safle a arolygwyd yn 2022, roedd chwech yn cynnwys tir a oedd yn cael ei hysbysebu i'w werthu.

8 Abergwaun ac Wdig, gan gynnwys ardal Scleddau a Threcŵn

Cyfanswm arwynebedd safle

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 433,800 | 43.38 |
| 2017 | 435,407 | 43.54 |
| 2019 | 435,374 | 43.54 |
| 2022 | 433,896.48 | 43.39 |
| Newid 2019-2022 | - 1477.52 | - 0.15 |

Arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 146,700 | 14.67 |
| 2017 | 70,268 | 7.03 |
| 2019 | 74,066 | 7.41 |
| 2022 | 98,116.35 | 9.81 |
| Newid 2019-2022 | + 24,050.35 | + 2.41 |

Ardal wag (gan gynnwys adeiladau yn 2013 ac wedi'u rhannu wedi hynny)

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 ardal ac adeiladau gwag | 287,100 | 28.71 |
| 2017 ardal wag | 343,070 | 34.31 |
| 2017 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 22,069 | 2.21 |
| 2019 ardal wag | 339,615 | 33.96 |
| 2019 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 21,693 | 2.17 |
| 2022 ardal wag | 313,727.06 | 31.37 |
| 2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 22,053.07 | 2.21 |
| Newid 2019-2022 ardal wag | - 25,887.84 | - 2.59 |
| Newid 2019-2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | + 360.07 | + 0.04 |

8.1 Casgliadau ardal Abergwaun ac Wdig, gan gynnwys Scleddau a Threcŵn – ychydig iawn o newid a fu yng nghyfanswm yr arwynebedd safle sydd ar gael at ddibenion cyflogaeth dros y cyfnod 2013 i 2022. Gostyngodd ffigur arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio rywfaint rhwng 2013 a 2017, newidiodd ychydig rhwng 2017 a 2019 a chodi ychydig rhwng 2019 a 2022. O ran arwynebedd tir gwag ac adeiladau gwag, cynyddodd arwynebedd y tir gwag rhwng 2013 a 2017, ond mae wedi gostwng ychydig ers hynny, tra bod ffigurau adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio wedi aros yn gyson drwy gydol y cyfnod a fonitrwyd.

Abergwaun ac Wdig, gan gynnwys ardal Scleddau a Threcŵn – tabl yn dangos cyfrannau gwahanol gategorïau tir sy'n cael/nad ydyw'n cael ei ddefnyddio, 2022

| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | $m^2$ | Hectarau | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | 433,896.48 | 43.39 | |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth | 47,902.84 | 4.79 | 11.04% |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion eraill | 15,060.06 | 1.51 | 3.47% |
| Adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 22,053.07 | 2.21 | 5.08% |
| Gwag, heb ei ddatblygu | 313,727.06 | 31.37 | 72.30% |
| Seilwaith, tirlunio a thir anodd ei ddatblygu | 35,153.45 | 3.52 | 8.10% |

8.2 Mae'r tabl uchod yn dangos bod ychydig mwy nag 11% o'r tir sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth. Roedd ychydig o dan 3.5% yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill. Mae hyn yn dangos bod cyfran isel o'r tir sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio ar ddyddiad yr arolwg. Roedd adeiladau nad oeddent yn cael eu defnyddio yn cynrychioli ychydig dros 5% o'r cyfanswm. Roedd tir gwag, heb ei ddatblygu yn cyfrif am ychydig dros 72% o'r cyfanswm. Roedd seilwaith, tirlunio a thir 'anodd ei ddatblygu' yn cyfrif am ychydig dros 8% o'r cyfanswm.

Abergwaun ac Wdig, gan gynnwys ardal Scleddau a Threcŵn – tabl yn dangos tir ac adeiladau a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth, yn ôl dosbarth defnydd, 2022

| Adeiladau / unedau caeedig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth, 2022 | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| Dosbarth defnydd B1 | 1,893.62 | 0.19 |
| Dosbarth defnydd B2 | 2,924.51 | 0.29 |
| Dosbarth defnydd B8 | 42,942.56 | 4.29 |
| Dosbarth defnydd A2 | 142.15 | 0.01 |

8.3 Mae'r tabl uchod yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r tir cyflogaeth sy'n cael ei ddefnyddio yn ardal Abergwaun ac Wdig, gan gynnwys Scleddau a Threcŵn, yn nosbarth B8 (dosbarthu a storio).

8.4 O'r wyth safle a arolygwyd yn 2022, roedd pedwar yn cynnwys tir a oedd yn cael ei hysbysebu i'w werthu.

## 9 Ardal Neyland

### Cyfanswm arwynebedd safle

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 225,600 | 22.56 |
| 2017 | 226,540 | 22.65 |
| 2019 | 226,541 | 22.65 |
| 2022 | 226,509.62 | 22.65 |
| Newid 2019-2022 | - 31.38 | 0 |

### Arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 123,200 | 12.32 |
| 2017 | 113,905 | 11.39 |
| 2019 | 115,240 | 11.52 |
| 2022 | 119,973.09 | 12.00 |
| Newid 2019-2022 | + 4,733.09 | + 0.47 |

Ardal wag (gan gynnwys adeiladau yn 2013 ac wedi'u rhannu wedi hynny)

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 ardal ac adeiladau gwag | 102,400 | 10.24 |
| 2017 ardal wag | 107,220 | 10.72 |
| 2017 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 5,415 | 0.54 |
| 2019 ardal wag | 107,672 | 10.77 |
| 2019 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 3,629 | 0.36 |
| 2022 ardal wag | 105,424.69 | 10.54 |
| 2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 1,111.84 | 0.11 |
| Newid 2019-2022 ardal wag | - 2,247.31 | - 0.22 |
| Newid 2019-2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | - 2517.16 | - 0.25 |

9.1 Casgliadau ardal Neyland – ychydig iawn o newid sydd wedi bod yng nghyfanswm yr arwynebedd safle sydd ar gael at ddibenion cyflogaeth dros y cyfnod 2013 i 2022. Gostyngodd ffigur arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio ychydig rhwng 2013 a 2017, gyda chynnydd bach wedi'i gofnodi wedyn rhwng 2017 a 2019 ac eto rhwng 2019 a 2022. O ran tir gwag ac adeiladau gwag, cynyddodd arwynebedd y tir gwag ychydig rhwng 2013 a 2017 ac eto rhwng 2017 a 2019, gyda gostyngiad bach yn dilyn hynny rhwng 2019 a 2022. Mae ffigur yr adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn isel iawn ac mae wedi lleihau gyda phob arolwg olynol.

Ardal Neyland – tabl yn dangos cyfrannau gwahanol gategorïau tir sy'n cael/nad ydyw'n cael ei ddefnyddio, 2022

| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | $m^2$ | Hectarau | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | 226,509.62 | 22.65 | |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth | 51,268.31 | 5.13 | 22.63% |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion eraill | 15,814.62 | 1.58 | 6.98% |
| Adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 1,111.84 | 0.11 | 0.49% |
| Gwag, heb ei ddatblygu | 105,424.69 | 10.54 | 46.54% |
| Seilwaith, tirlunio a thir anodd ei ddatblygu | 52,890.16 | 5.29 | 23.35% |

9.2 Mae'r tabl uchod yn dangos bod ychydig o dan 23% o'r tir sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth. Roedd ychydig o dan 7% yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill. Roedd adeiladau nad oeddent yn cael eu defnyddio yn cynrychioli ychydig o dan 0.5% o'r cyfanswm. Roedd tir gwag, heb ei ddatblygu yn cyfrif am tua 46.5% o'r cyfanswm, er bod cyfanswm arwynebedd y tir dan sylw yn yr achos hwn yn gymedrol, ychydig dros 10.5 hectar. Roedd seilwaith, tirlunio a thir 'anodd ei ddatblygu' yn cyfrif am ychydig dros 23% o'r cyfanswm.

Ardal Neyland – tabl yn dangos tir ac adeiladau a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth, yn ôl dosbarth defnydd, 2022

| Adeiladau / unedau caeedig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth, 2022 | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| Dosbarth defnydd B1 | 2,194.14 | 0.22 |
| Dosbarth defnydd B2 | 14,914.36 | 1.49 |
| Dosbarth defnydd B8 | 34,159.81 | 3.42 |
| Dosbarth defnydd A2 | 0 | 0 |

9.3 Mae'r tabl uchod yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r tir cyflogaeth sy'n cael ei ddefnyddio yn ardal Neyland yn nosbarth B8 (dosbarthu a storio). O'r gweddill, y defnydd tir nesaf sy'n digwydd amlaf yw dosbarth B2 (diwydiannol cyffredinol).

9.4 O'r tri safle a arolygwyd yn 2022, roedd dau yn cynnwys tir a hysbysebwyd i'w werthu.

## 10 Ardal Arberth

### Cyfanswm arwynebedd safle

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 46,500 | 4.65 |
| 2017 | 53,456 | 5.35 |
| 2019 | 53,454 | 5.35 |
| 2022 | 53,450.30 | 5.35 |
| Newid 2019-2022 | - 3.70 | 0 |

### Arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 31,400 | 3.14 |
| 2017 | 38,425 | 3.84 |
| 2019 | 43,469 | 4.35 |
| 2022 | 44,384.91 | 4.44 |
| Newid 2019-2022 | + 915.91 | + 0.09 |

Ardal wag (gan gynnwys adeiladau yn 2013 ac wedi'u rhannu wedi hynny)

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 ardal ac adeiladau gwag | 15,100 | 1.51 |
| 2017 ardal wag | 15,031 | 1.50 |
| 2017 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 0 | 0 |
| 2019 ardal wag | 9,858 | 0.99 |
| 2019 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 127 | 0.01 |
| 2022 ardal wag | 9,065.39 | 0.91 |
| 2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 0 | 0 |
| Newid 2019-2022 ardal wag | - 792.61 | - 0.08 |
| Newid 2019-2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | - 127 | - 0.01 |

10.1 Casgliadau ardal Arberth – bu cynnydd bach yn y tir sydd ar gael at ddibenion cyflogaeth rhwng 2013 a 2017, gyda'r tir sydd ar gael yn aros ar yr un lefel o 2017 ymlaen. Mae ffigur arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio wedi cynyddu'n raddol o 2013 hyd at 2022. O ran tir gwag ac adeiladau gwag, mae arwynebedd y tir gwag wedi gostwng yn raddol dros y cyfnod 2013 i 2022, tra bod ffigur yr adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio wedi'i gofnodi fel sero yn 2017 a 2022, gyda ffigur isel iawn yn cael ei gofnodi ar gyfer 2019.

Ardal Arberth – tabl yn dangos cyfrannau gwahanol gategorïau tir sy'n cael/nad ydyw'n cael ei ddefnyddio, 2022

| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | $m^2$ | Hectarau | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | 53,450.30 | 5.35 | |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion cyflogaeth | 24,280.91 | 2.43 | 45.43% |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion eraill | 6,803.03 | 0.68 | 12.73% |
| Adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 0 | 0 | 0% |
| Gwag, heb ei ddatblygu | 9,065.39 | 0.91 | 16.96% |
| Seilwaith, tirlunio a thir anodd ei ddatblygu | 13,300.97 | 1.33 | 24.88% |

10.2 Mae'r tabl uchod yn dangos bod ychydig dros 23% o'r tir sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth. Roedd ychydig o dan 13% yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill. Ni chofnodwyd unrhyw adeiladau fel rhai nad oeddent yn cael eu defnyddio yn 2022. Roedd tir gwag, heb ei ddatblygu yn cyfrif am ychydig o dan 17% o'r cyfanswm, er bod cyfanswm arwynebedd y tir dan sylw yn yr achos hwn yn fach, gan gael ei gofnodi fel ychydig o dan un hectar. Roedd seilwaith, tirlunio a thir 'anodd ei ddatblygu' yn cyfrif am ychydig o dan 25% o'r cyfanswm.

Ardal Arberth – tabl yn dangos tir ac adeiladau a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth, yn ôl dosbarth defnydd, 2022

| Adeiladau / unedau caeedig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth, 2022 | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| Dosbarth defnydd B1 | 0 | 0 |
| Dosbarth defnydd B2 | 8,549.49 | 0.85 |
| Dosbarth defnydd B8 | 15,731.42 | 1.57 |
| Dosbarth defnydd A2 | 0 | 0 |

10.3 Mae'r tabl uchod yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r tir cyflogaeth sy'n cael ei ddefnyddio yn ardal Arberth yn nosbarth B8 (dosbarthu a storio). O'r gweddill, y defnydd tir nesaf sy'n digwydd amlaf yw dosbarth B2 (diwydiannol cyffredinol), gyda dim ymatebion ar gyfer dosbarthiadau defnydd B1 ac A2.

10.4 O'r pedwar safle a arolygwyd yn 2022, nid oedd yr un ohonynt yn cynnwys tir a hysbysebwyd i'w werthu.

## 11 Lleoliadau eraill yn ardal gynllunio'r cyngor

### Cyfanswm arwynebedd safle

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 454,400 | 45.44 |
| 2017 | 621,848 | 62.18 |
| 2019 | 645,018 | 64.50 |
| 2022 | 667,215.36 | 66.72 |
| Newid 2019-2022 | + 22,197.36 | + 2.22 |

### Arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | 257,700 | 25.77 |
| 2017 | 371,677 | 37.17 |
| 2019 | 412,157 | 41.22 |
| 2022 | 445,600.56 | 44.56 |
| Newid 2019-2022 | + 33,443.56 | + 3.34 |

Ardal wag (gan gynnwys adeiladau yn 2013 ac wedi'u rhannu wedi hynny)

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 ardal ac adeiladau gwag | 196,700 | 19.67 |
| 2017 ardal wag | 241,150 | 24.12 |
| 2017 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 9,021 | 0.90 |
| 2019 ardal wag | 222,345 | 22.23 |
| 2019 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 10,516 | 1.05 |
| 2022 ardal wag | 219,748.27 | 21.97 |
| 2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 1,866.53 | 0.19 |
| Newid 2019-2022 ardal wag | - 2,596.73 | - 0.26 |
| Newid 2019-2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | - 8,649.47 | - 0.86 |

11.1 Casgliadau ar gyfer lleoliadau eraill yn ardal gynllunio'r cyngor – bu cynnydd sylweddol yn y tir sydd ar gael at ddibenion cyflogaeth rhwng 2013 a 2017. Yn y cyfnod rhwng 2017 a 2022, mae'r duedd ar i fyny wedi parhau, ond ar lefel llawer mwy cymedrol o flwyddyn i flwyddyn. Cynyddodd ffigur arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio yn sylweddol hefyd rhwng 2013 a 2017, a chafwyd cynnydd pellach, cymedrol, rhwng 2017 a 2022. O ran tir gwag ac adeiladau gwag, cynyddodd arwynebedd y tir gwag rhwng 2013 a 2017 ond mae wedi lleihau'n raddol yn y cyfnod 2017 i 2022. Cododd ffigurau'r adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio ychydig rhwng 2017 a 2019, ond yna gostyngodd y ffigurau yn 2022, yn bennaf oherwydd bod adeiladau segur ar ddau o'r safleoedd yn cael eu defnyddio unwaith eto. Fodd bynnag, mae ffigurau'r adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn eithaf isel yn gyffredinol drwy gydol y cyfnod monitro.

Lleoliadau eraill yn ardal gynllunio’r cyngor – tabl yn dangos cyfrannau gwahanol gategorïau tir sy’n cael/nad ydyw’n cael ei ddefnyddio, 2022

| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | $m^2$ | Hectarau | % o’r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | 667,215.36 | 66.72 | |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion cyflogaeth | 241,767.62 | 24.18 | 36.24% |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion eraill | 43,304.24 | 4.33 | 6.49% |
| Adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 1,866.53 | 0.19 | 0.28% |
| Gwag, heb ei ddatblygu | 219,748.27 | 21.97 | 32.94% |
| Seilwaith, tirlunio a thir anodd ei ddatblygu | 160,528.70 | 16.05 | 24.06% |

11.2 Mae’r tabl uchod yn dangos bod ychydig dros 36% o’r tir sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth. Roedd 6.5% arall yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill. Mae adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cynrychioli cyfran ansylweddol o’r cyfanswm. Roedd tir gwag, heb ei ddatblygu yn cyfrif am ychydig o dan 33% o’r cyfanswm. Roedd seilwaith, tirlunio a thir ‘anodd ei ddatblygu’ yn cyfrif am ychydig dros 24% o’r cyfanswm.

Lleoliadau eraill yn ardal gynllunio'r cyngor – tabl yn dangos tir ac adeiladau a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth, yn ôl dosbarth defnydd, 2022

| Adeiladau / unedau caeedig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth, 2022 | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| Dosbarth defnydd B1 | 6,288.20 | 0.63 |
| Dosbarth defnydd B2 | 67,361.79 | 6.74 |
| Dosbarth defnydd B8 | 167,986.36 | 16.80 |
| Dosbarth defnydd A2 | 131.27 | 0.01 |

11.3 Mae'r tabl uchod yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r tir cyflogaeth sy'n cael ei ddefnyddio mewn lleoliadau eraill yn ardal gynllunio'r cyngor yn nosbarth B8 (dosbarthu a storio). O'r gweddill, y defnydd tir nesaf mwyaf cyffredin yw dosbarth B2 (diwydiannol cyffredinol), a cheir symiau bach o dir cyflogaeth sy'n cael ei ddefnyddio yn nosbarthiadau B1 ac A2.

11.4 O'r 27 safle a arolygwyd yn 2022, roedd dau yn cynnwys tir a hysbysebwyd i'w werthu.

## 12 Safleoedd Parc Cenedlaethol

### Cyfanswm arwynebedd safle

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | Heb ei gofnodi | Heb ei gofnodi |
| 2017 | 848,231 | 84.82 |
| 2019 | 848,232 | 84.82 |
| 2022 | 856,287.61 | 85.63 |
| Newid 2019-2022 | + 8,055.61 | + 0.81 |

### Arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 | Heb ei gofnodi | Heb ei gofnodi |
| 2017 | 811,405 | 81.14 |
| 2019 | 812,089 | 81.21 |
| 2022 | 825,632.20 | 82.56 |
| Newid 2019-2022 | + 13,543.20 | + 1.35 |

Ardal wag (gan gynnwys adeiladau yn 2013 ac wedi'u rhannu wedi hynny)

| Blwyddyn | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| 2013 ardal ac adeiladau gwag | Heb ei gofnodi | Heb ei gofnodi |
| 2017 ardal wag | 36,100 | 3.61 |
| 2017 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 726 | 0.07 |
| 2019 ardal wag | 35,403 | 3.54 |
| 2019 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 740 | 0.07 |
| 2022 ardal wag | 30,492.47 | 3.05 |
| 2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 162.94 | 0.02 |
| Newid 2019-2022 ardal wag | - 4,910.53 | - 0.49 |
| Newid 2019-2022 adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | - 577.06 | - 0.06 |

12.1 Ni chafodd safleoedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro eu cynnwys yn arolwg 2013, ond mae arolygon diweddarach wedi cynnwys safleoedd y parc cenedlaethol, gyda'r bwriad o ddarparu dadansoddiad ar draws y sir.

12.2 Casgliadau safleoedd y parc cenedlaethol – roedd y tir sydd ar gael at ddibenion cyflogaeth bron yn union yr un fath yn 2017 a 2019, ond yn 2022 cynyddodd ychydig llai nag hectar. Cynyddodd ffigurau arwynebedd safle sy'n cael ei ddefnyddio ychydig rhwng 2017 a 2019 ac yna cynyddodd ymhellach ychydig dros hectar rhwng 2019 a 2022. O ran tir gwag ac adeiladau gwag, gostyngodd arwynebedd y tir gwag ychydig rhwng 2017 a 2019 a gostyngodd ymhellach tua 0.5 hectar rhwng 2019 a 2022. Mae ffigur yr adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cynyddu ychydig bach rhwng 2017 a 2019 ac yna'n gostwng ar unwaith rhwng 2019 a 2022. Mae ffigurau'r adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn gyffredinol isel iawn drwy gydol y cyfnod monitro

ac erbyn 2022 roeddent yn fach iawn. Mae un o'r safleoedd a gofnodwyd yn y parc cenedlaethol wedi'i ddatblygu ar gyfer tai ers arolwg 2022 – bydd hyn yn cael ei nodi yn yr arolwg nesaf.

### Safleoedd y parc cenedlaethol – tabl yn dangos cyfrannau gwahanol gategorïau tir sy'n cael/nad ydyw'n cael ei ddefnyddio, 2022

| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | $m^2$ | Hectarau | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2022 cyfanswm arwynebedd safle | 856,287.61 | 85.63 | |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion cyflogaeth | 793,414.30 | 79.34 | 92.66% |
| Adeiladau / unedau caeedig yn cael eu defnyddio at ddibenion eraill | 3,659.96 | 0.37 | 0.43% |
| Adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio | 162.94 | 0.02 | 0.02% |
| Gwag, heb ei ddatblygu | 30,492.47 | 3.05 | 3.56% |
| Seilwaith, tirlunio a thir anodd ei ddatblygu | 28,557.94 | 2.86 | 3.34% |

12.3 Mae'r tabl uchod yn dangos bod ychydig o dan 93% o'r tir sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth. Roedd llai na 0.5% yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill. Mae adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cynrychioli cyfran ansylweddol o'r cyfanswm. Roedd tir gwag, heb ei ddatblygu yn cyfrif am ychydig dros 3.5% o'r cyfanswm. Roedd seilwaith, tirlunio a thir 'anodd ei ddatblygu' yn cyfrif am ychydig llai na 3.5% o'r cyfanswm.

Safleoedd y parc cenedlaethol – tabl yn dangos tir ac adeiladau a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth, yn ôl dosbarth defnydd, 2022

| Adeiladau / unedau caeedig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth, 2022 | $m^2$ | Hectarau |
|---|---|---|
| Dosbarth defnydd B1 | 1100.34 | 0.11 |
| Dosbarth defnydd B2 | 778,620.11 | 77.86 |
| Dosbarth defnydd B8 | 13,693.85 | 1.37 |
| Dosbarth defnydd A2 | 0 | 0 |

12.4 Mae'r tabl uchod yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o dir cyflogaeth sy'n cael ei ddefnyddio ar safleoedd y parc cenedlaethol yng nghategori dosbarth B2 (diwydiannol cyffredinol). Mae hyn oherwydd bod y rhan o safle South Hook LNG yn y parc cenedlaethol yn dominyddu'r ddarpariaeth. Mae dosbarthiadau defnydd eraill yn gwneud cyfraniad llai, gyda dosbarth B8 (dosbarthu a storio) yn ail gyfrannwr mwyaf yn ôl dosbarth defnydd. Mae dosbarth defnydd B1 yn ffurfio elfen fach o'r ddarpariaeth ac ni chofnodwyd unrhyw ddefnyddiau A2. Er bod darpariaeth tir diwydiannol yn y parc cenedlaethol ar raddfa fach os ydym yn diystyru safle South Hook LNG, mae'r safleoedd eraill serch hynny'n gwneud cyfraniad lleol pwysig.

12.5 O'r wyth safle a arolygwyd yn 2022, roedd un yn cynnwys tir a hysbysebwyd i'w werthu.

## 13 Safleoedd bach – safleoedd cyflogaeth ar hap o lai na 5,000 $m^2$ (0.5 hectar)

13.1 Mae safleoedd bach o fewn ardal gynllunio'r cyngor a gafodd ganiatâd at ddibenion cyflogaeth yn 2019-20, 2020-21 a 2021-22 (h.y. ers arolwg cyflogaeth 2019) wedi'u rhestru ar daenlen canlyniadau'r arolwg, er na chafodd y safleoedd hyn eu harolygu. Nid yw safleoedd o'r fath yn ardal y parc cenedlaethol wedi'u rhestru.

13.2 Roedd 36 o geisiadau cynllunio wedi cael cydsyniad, ynghyd â dau gais adeilad rhestredig, ar gyfer safleoedd cyflogaeth ar hap yn ystod y cyfnod rhwng 2019-20, 2020-21 a 2021-22. Roedd arwynebedd cyfun y safle ar gyfer y ceisiadau hyn yn 43,300 metr sgwâr (4.33 hectar). Fodd bynnag, denodd sawl safle geisiadau lluosog, felly bydd yr arwynebedd safle a ddyfynnwyd yn cynnwys elfen gyfrif lluosog sylweddol – a bydd cyfanswm gwirioneddol y safleoedd ar hap yn is. Wedi'i gynnwys yng nghyfanswm y ceisiadau cynllunio roedd un cais rhyddhau amod a chais diwygiad ansylweddol, y rhain yn ymwneud â chaniatadau cynharach ac felly'n cyfrannu at chwyddo cyfanswm gwirioneddol y safleoedd ar hap.

## 14 Taenlen ganlyniadau (Atodiad A)

14.1 Cyflwynir y daenlen ganlyniadau fel Atodiad A i'r adroddiad hwn.

## 15 Mapiau (Atodiad B)

15.1 Mae mapiau wedi'u paratoi sy'n dangos ffin safle pob un o'r safleoedd cyflogaeth a restrir yn Atodiad A. Cyflwynir y rhain mewn dogfen map, sy'n ffurfio Atodiad B i'r adroddiad hwn.

15.2 Nid oes mapiau wedi'u paratoi ar gyfer y safleoedd bach yn ardal gynllunio'r cyngor (safleoedd cyflogaeth ar hap o lai na 5,000 $m^2$).